



## Chwarae pi-po

Mae chwarae pi-po mor syml ond mae hefyd yn help i'ch plentyn ddatblygu mewn cymaint o ffyrdd:

- Mae'n helpu'ch plentyn i ddysgu am 'sefydlogrwydd gwrthrychau' - maent yn dysgu eich bod yn dal yno hyd yn oed os na allant eich gweld
- Mae'n datblygu sgiliau iaith eich plentyn ac yn eu hannog i wneud cyswllt llygaid a darllen mynegiadau wyneb
- Mae'n datblygu sgiliau symudedd eich plentyn gan eu bod yn dysgu'ch copïo chi a gorchuddio'u llygaid
- Bydd yn eu helpu hefyd gyda'u sgiliau cymdeithasol ac yn eu dysgu i gymryd eu tro a chwarae gydag eraill